# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthin, Dydd Mercher, 29 Mehefin 2016 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Irving, Cefyn Williams a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Swyddog Trwyddedu (NJ) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ)

## PWYNT O SYLW

Ar ddechrau'r achos nid oedd yr Ymgeisydd yn bresennol ac nid oedd wedi cynghori a oedd yn bwriadu bod yn bresennol ai peidio neu gael ei chynrychioli yn y gwrandawiad. Penderfynodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i fwrw ymlaen â'r gwrandawiad yn absenoldeb yr Ymgeisydd. Cafodd gweithdrefn yr Is-bwyllgor ar gyfer ymdrin â cheisiadau a wnaed o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ei hamrywio ychydig yn ddiweddarach er mwyn hwyluso ar gyfer hwyr ddyfodiad yr Ymgeisydd rhan o'r ffordd drwy'r achos.

## 1 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Cefyn Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Roedd gweithdrefnau'r gwrandawiad wedi eu hanfon ynghynt i bawb ac roedd copïau o'r Datganiad Polisi Trwyddedu ar gael yn y cyfarfod.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni wnaeth unrhyw un ddatgan cysylltiad.

## 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM DRWYDDED SAFLE NEWYDD – THE POTS, 22 STRYD FAWR, Y RHYL

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar -

(i) gais a oedd wedi dod i law gan Yvette Giblin am Drwydded Safle newydd mewn perthynas â The Pots, 22 Stryd Fawr, Y Rhyl;

(ii) yr ymgeisydd a oedd wedi gofyn am ganiatâd i ddarparu'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG | DYDDIAU PERTHNASOL | AMSER O | AMSER |
|---|---|---|---|

| | | | I |
|---|---|---|---|
| Darparu cerddoriaeth fyw<br>(Dan do yn unig) | Dydd Iau<br>dydd Gwener a dydd Sadwrn | 19:00<br>19:00 | 23:00<br>02:00 |
| Darparu Cerddoriaeth wedi'i Recordio<br>(Dan do yn unig) | Dydd Llun – Dydd Iau<br>dydd Gwener a dydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 11:00<br>11:00<br>11:00 | 23:00<br>02:00<br>00:00 |
| Darparu Alcohol | Dydd Llun - Dydd Mercher<br>Dydd Iau<br>dydd Gwener a dydd Sadwrn<br>Dydd Sul | 11:00<br>11:00<br>11:00<br>11:00 | 23:00<br>00:00<br>02:00<br>00:00 |

(iii) yr ymgeisydd a oedd wedi nodi y chwaraeir gerddoriaeth fyw wedi'i chwyddo tan 02:00 ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn unwaith neu ddwywaith y mis yn unig; gall perfformiadau actiwstig ddigwydd ar ôl 23:00; byddai cerddoriaeth fyw hefyd yn cael ei darparu ar Nos Galan tan 02:00; byddai cerddoriaeth wedi'i recordio yn cynnwys cyfuniad o gerddoriaeth gefndir a DJ.

(iv) yy Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a oedd wedi cyflwyno sylwadau (Atodiad A i'r adroddiad) nad oedd y darpariaethau diogelwch tân cyfredol ar y safle yn addas a chyfleus ar gyfer y defnydd arfaethedig, ac yn manylu ar y meysydd pryder ac argymhellion i fynd i'r afael â'r diffygion yn ymateb i'r cais a oedd wedi ei rannu gyda'r ymgeisydd;

(v) Heddlu Gogledd Cymru, ar ôl cyflwyno sylwadau ar y cais ond yn dilyn trafodaethau gyda'r ymgeisydd lluniwyd nifer o amodau sydd wedi eu cynllunio i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ymhellach (Atodiad B i'r adroddiad) ac ar y sail honno gofynnodd yr Heddlu, pe byddai'r aelodau o blaid cymeradwyo'r cais, eu bod yn ystyried cynnwys yr amodau hynny o fewn Atodlen Weithredu'r eiddo (Atodiad C i'r adroddiad);

(vi) roedd yr ymgeisydd wedi nodi ei pharodrwydd i weithio gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i gyflawni eu gofynion ac argymhellion a'i bod yn gweithio gyda pherchnogion yr eiddo yn hynny o beth;

(vii) yr angen ystyried y cais gan roi ystyriaeth ddyladwy i Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor; i Ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol; i ddeddfwriaeth arall berthnasol ac i sylwadau perthnasol a dderbyniwyd.

(viii) yr opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth benderfynu ar y cais.

Cafodd yr Aelodau eu harwain trwy'r adroddiad gan y Swyddog Trwyddedu a amlinellodd ffeithiau'r achos.

**SYLWADAU GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Roedd Mr. Bob Mason, Dirprwy Pennaeth Busnes a Diogelwch Tân a Mr Nigel Day, Swyddog Cydymffurfio yn bresennol ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac ymhelaethwyd ar bryderon Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn perthynas â'r safle.

Ar y pwynt hwn, cyrhaeddodd yr Ymgeisydd, Ms Yvette Giblin y cyfarfod yng nghwmni ei chynrychiolydd Mr. Sean Jones.

Parhaodd y Swyddogion Tân gyda'u cyflwyniad a chyfeirio at eu sylwadau ysgrifenedig (Atodiad A i'r adroddiad) yn tynnu sylw at feysydd o bryder oedd angen mynd i'r afael â hwy cyn i'r adeilad agor ynghyd â'u hargymhellion i gyflawni'r nod hwnnw. Roedd y pum prif fethiant a nodwyd i gyd yn faterion diogelwch cyhoeddus o bwys a chyfeiriwyd hefyd at gyngor ewyllys da ynghylch diogelwch trydanol. Ers eu harolygiad diwethaf, roedd Raven Solar and Electrical Services wedi cynnal peth gwaith adfer ar y safle o ran y larwm tân a goleuadau ac roedd Adroddiad Arolygu a Gwasanaethu ar gael i'r aelodau yn y cyfarfod. Fodd bynnag roedd pryderon yn parhau dros agweddau eraill a nodwyd o ran diogelwch trydanol a oedd angen gwaith adferol ar unwaith. Dywedodd y Swyddog Tân, er bod rhywfaint o waith wedi'i wneud, y byddai ymrwymiadau pellach yn ofynnol cyn y gellid ystyried yr adeilad yn addas at y diben. O ganlyniad gofynnwyd i'r aelodau i ohirio cyflwyno trwydded hyd nes bydd y gwaith angenrheidiol wedi ei wneud.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD**

Dywedodd yr Ymgeisydd, Ms. Yvette Giblin a'i chynrychiolydd, Mr. Sean Jones bod yr holl waith adfer angenrheidiol fel y nodwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ei wneud. Roedd Tystysgrif Trydanol yn manylu ar y gwaith hynny wedi cael ei roi i Parkers Leisure (perchennog yr adeilad) a oedd wedi e-bostio copi yn uniongyrchol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Dywedodd y Swyddogion Tân nad oeddent wedi derbyn y Dystysgrif Trydanol nac wedi ei gweld.

Ymatebodd yr Ymgeisydd a'i chynrychiolydd i gwestiynau fel a ganlyn -

- manylodd ar leoliad y safle a'i fod ar y llawr cyntaf a'r ail lawr uwchben caffi a siop ddillad gyda mynedfa llawr gwaelod i'r grisiau
- yn draddodiadol roedd y safle wedi cael ei ddefnyddio fel neuadd snwcer / pŵl a'r bwriad oedd i barhau â’r traddodiad hwnnw gyda prif ardal y bar ar y llawr cyntaf
- byddai'r ail lawr hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer swyddogaethau eraill a'r bwriad oedd cynnal digwyddiad byw unwaith y mis
- roedd yr eiddo wedi bod yn wag am 8/9 mis.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd gwestiynau i'r Swyddogion Tân a dywedodd -

- er bod llwybr dianc digonol ar gael ar y safle pan oedd yn cael ei ddefnyddio fel neuadd snwcer / pŵl, nid oedd yn lleoliad delfrydol ar gyfer digwyddiadau megis bandiau byw - felly rhoddwyd ffigwr uchafswm deiliadaeth o 200 yn y gorffennol

- Nid oedd y Swyddogion Tân wedi gweld asesiad risg tân a wnaed mewn perthynas â'r safle eto ond roeddent yn fodlon gweithio gyda'r ymgeisydd i gyflawni'r canlyniad hwnnw – roedd llawer o'r gwaith hwnnw eisoes wedi cael ei wneud a byddai'n cael ei atgyfnerthu ymhellach gyda'r Ymgeisydd fel byddai materion yn symud ymlaen.

**CYFLWYNIAD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Nid oedd cynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y sylwadau ysgrifenedig a nifer o amodau a gytunwyd rhwng yr Ymgeisydd a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ymhellach (i'w weld yn Atodiad B i'r adroddiad). Gofynnodd yr Heddlu a fyddai'r aelodau'n penderfynu caniatáu'r cais pe baent yn ystyried ymgorffori'r amodau hynny o fewn yr Atodlen Weithredu.

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD**

Wrth wneud datganiad terfynol dywedodd Mr. Jones fod yr holl waith sy'n ofynnol gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi eu gwneud a bod yr Ymgeisydd yn fodlon gweithio gyda hwy i sicrhau eu boddhad. Adroddodd am eu gweithrediad blaenorol o eiddo trwyddedig a oedd wedi bod yn ddidrafferth a rhoddwyd sicrwydd eu bod yn dafarnwyr cyfrifol.

Cyn trafodaeth yr aelodau, cytunodd y Cadeirydd i ohiriad byr er mwyn caniatáu amser i'r Ymgeisydd i gael copi o'r Dystysgrif Trydanol y cyfeiriwyd ati yn ei chyflwyniad fel tystiolaeth o'r gwaith adferol a wnaed. Nodwyd bod angen tystiolaeth bellach o ran y Dystysgrif Cynnal a Chadw hefyd ac roedd perchnogion yr eiddo yn disgwyl am hon ar hyn o bryd.

**GOHIRIAD I YSTYRIED Y CAIS**

Ar y pwynt hwn (10.30 a.m.) gohiriwyd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais. Yna darparwyd copi o'r Dystysgrif Trydanol yr ystyriodd yr aelodau yn ystod eu trafodaethau.

**PENDERFYNIAD A RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr amodau a nodir isod, rhoi Trwydded Safle ar gyfer y canlynol -*

| ***GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG*** | ***DYDDIAU PERTHNASOL*** | ***AMSER O*** | ***AMSER I*** |
|---|---|---|---|
| *Darparu cerddoriaeth fyw*<br>*(Dan do yn unig)* | *Dydd Iau*<br>*dydd Gwener a dydd Sadwrn* | *19:00*<br>*19:00* | *23:00*<br>*02:00* |
| *Darparu Cerddoriaeth wedi'i Recordio*<br>*(Dan do yn unig)* | *Dydd Llun – Dydd Iau*<br>*dydd Gwener a dydd Sadwrn*<br>*Dydd Sul* | *11:00*<br>*11:00*<br>*11:00* | *23:00*<br>*02:00*<br>*00:00* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Darparu Alcohol* | *Dydd Llun - Dydd Mercher*<br>*Dydd Iau*<br>*dydd Gwener a dydd Sadwrn*<br>*Dydd Sul* | *11:00*<br>*11:00*<br>*11:00*<br>*11:00* | *23:00*<br>*00:00*<br>*02:00*<br>*00:00* |

***AMODAU***

*Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru -*

*Rhaid datrys y sylwadau a roddwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn eu cyflwyniad, ac fel manylwyd yn Atodiad A i'r adroddiad, i'w boddhad cyn y cyflwynir y drwydded.  Uchafswm deiliadaeth o 200 o bobl.*

*Fel y cawsant eu cyflwyno gan Heddlu Gogledd Cymru -*

*Atal Trosedd ac Anhrefn*

*1)* ***<u>TCC</u>***

*a) Bydd system teledu cylch caeedig yn cael ei gosod yn yr adeilad a bydd ar waith pryd bynnag y bo'r safle ar agor.*
*b) Bydd gan y system teledu cylch caeedig gamerâu yn monitro tu mewn a thu allan yr adeilad.*
*c) Yn achos tu mewn yr eiddo bydd digon o gamerâu wedi eu gosod i weld pob rhan o'r adeilad y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt, ac eithrio ardal y toiledau.*
*d) Dylai bod y TCC yn edrych ar yr holl bwyntiau mynediad a gadael gan ddangos pen ac ysgwydd yn glir. Bydd y system teledu cylch cyfyng o safon sy'n gallu darparu delweddau o ansawdd tystiolaethol ac yn gallu adnabod wynebau ym mhob golau.*
*e) Bydd gan y system teledu cylch caeedig gyfleuster i recordio delweddau o bob camera a chaiff y lluniau hyn yn cael eu cadw am o leiaf 28 diwrnod*
*f) Bydd y system teledu cylch caeedig yn cynnwys cyfleuster sy'n cynnwys y dyddiad a'r amser cywir ar y delweddau sy'n cael eu recordio*
*g) Bydd gan y system teledu cylch caeedig gyfleuster er mwyn gallu llwytho delweddau i ryw fath o gyfrwng cludadwy.*
*h) Cyfrifoldeb deiliad y drwydded safle yw darparu cyfryngau symudadwy, a phe bai cyfryngau symudadwy yn cael eu hatafaelu, mae'n gyfrifoldeb ar y safle i sicrhau bod fformatau ychwanegol o gyfryngau symudadwy ar gael. Bydd delweddau o'r system teledu cylch cyfyng ar gael i Heddlu neu swyddogion yr Awdurdod Lleol pe baent yn gofyn am hynny.*
*i) Bydd o leiaf un aelod o staff a fydd wedi'i hyfforddi i weithredu'r system teledu cylch caeedig ac a fydd yn gallu darparu'r delweddau a recordiwyd o'r system teledu cylch caeedig ar ddyletswydd ar bob achlysur pan fo'r eiddo ar agor.*
*j) Rhaid i'r Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig sicrhau bod gwiriadau wythnosol yn cael eu gwneud ar weithrediad y system teledu cylch cyfyng – eir i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn y system ar unwaith.*

*k) Rhaid i hyn gynnwys gwiriad gweithrediad y camerâu, y cyfleusterau recordio, cyfleusterau ar gyfer darparu delweddau a chywirdeb yr amser a'r dyddiad.*
*l) Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o'r archwiliadau hyn, gan gynnwys llofnod y person sy'n cynnal yr archwiliad.*
*m) Rhaid i'r cofnod ysgrifenedig hwn gael ei gadw ar y safle bob amser ac ar gael i gynrychiolydd o unrhyw awdurdod cyfrifol ar eu cais. 2)* ***CYN*** *cael caniatâd i ymgymryd â gwerthu alcohol rhaid i bob aelod o staff heb drwydded bersonol, gan gynnwys unrhyw aelodau o staff di-dâl, aelodau o'r teulu a phobl achlysurol a allai fod yn gysylltiedig â gwerthu alcohol ar y safle, gael eu hyfforddi yn eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r Ddeddf honno - yn benodol byddant yn cael hyfforddiant o ran gwerthu alcohol i bobl sydd wedi meddwi.*
*n) Cynhelir hyfforddiant diweddaru mewn perthynas â 2) uchod ar gyfer pob aelod o staff sy'n ymwneud â gwerthu alcohol bob chwe mis.*

*4) Dylid cadw cofnod o'r hyfforddiant cychwynnol a'r hyfforddiant diweddaru dilynol a dderbyniwyd a dylid gallu eu cyflwyno i Heddlu neu swyddogion yr Awdurdod Lleol ar gais.*

*5) Llyfr Digwyddiadau a Gwrthod - rhaid cadw llyfr digwyddiadau a gwrthod (gyda'r tudalennau wedi'u rhifo) ar y safle a bydd ar gael i'w archwilio gan yr awdurdodau cyfrifol. Rhaid defnyddio'r llyfr digwyddiadau a gwrthod i gofnodi'r canlynol -*

*a) Unrhyw achos o drais neu anhrefn ar neu yn union y tu allan i'r safle.*
*b) Unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â chyffuriau (cyflenwi / meddiant / dylanwad) ar y safle.*
*c) Unrhyw drosedd neu weithgarwch troseddol arall ar y safle.*
*d) Unrhyw wrthodiad i weini alcohol i bobl sy'n feddw.*
*e) Unrhyw wrthodiad i weini alcohol i rai dan 18 oed neu unrhyw un sy'n ymddangos o dan 18 oed.*
*f) Unrhyw alwad am gymorth yr heddlu i'r eiddo.*
*g) Unrhyw un sy'n cael eu taflu allan o'r safle*
*h) Unrhyw gymorth cyntaf / gofal arall a roddwyd i gwsmer.*

*6) Mae'n rhaid i'r llyfr digwyddiadau a gwrthod fod ar gael i'w archwilio gan awdurdodau cyfrifol ar gais. Gall yr wybodaeth hon hefyd gael ei chofnodi yn electronig trwy ddefnyddio system til neu system debyg.*

*7) Dylid adolygu'r llyfr digwyddiadau a gwrthod bob pythefnos gan y rheolwyr adeiladau a llofnodi/dyddio i gadarnhau cydymffurfiaeth.*

*8) Bydd y cofnod llyfr digwyddiadau a gwrthod ar gael i'w archwilio ar gais swyddogion Heddlu Gogledd Cymru neu'r Awdurdod Lleol ar eu cais.*

*9) Ar adegau pan fydd yr eiddo ar agor y tu hwnt i 00:00, bydd y safle yn cyflogi o leiaf un staff drws SIA cofrestredig o 22:00 pm tan yr amser bydd y safle wedi cau a bydd yr holl gwsmeriaid wedi gadael.*

*10) Bydd y safle'n cynnal asesiad risg ar gyfer unrhyw ddigwyddiad a bydd yn asesu'r angen am staff drws. Os yw digwyddiad angen penodi staff drws, yna*

*byddant yn cael eu cyflogi mewn cymhareb o 1:100 a byddant wedi’u cofrestru gyda SIA.*

*Amddiffyn Plant Rhag Niwed*

*1) Bydd y safle yn gweithredu polisi gwirio oedran Her 25*

*2) Bydd yr holl staff, gan gynnwys unrhyw aelodau di-dâl o staff, aelodau'r teulu a phobl achlysurol sy'n ymwneud â gwerthu alcohol yn cael eu hyfforddi yn y polisi Her 25 CYN cael caniatâd i werthu alcohol a byddant yn ymgymryd â hyfforddiant gloywi bob chwe mis fel isafswm.*

*3) Bydd cofnodion o'r hyfforddiant Her 25 yn cael ei gadw a bydd ar gael i'w archwilio ar gais gan swyddogion Heddlu Gogledd Cymru neu'r Awdurdod Lleol ar gais.*

*4) Bydd plant (o dan 18 oed) yn cael dod i’r eiddo dim ond os ydynt yng nghwmni oedolyn bob amser.*

*5) Ni fydd unrhyw blant (o dan 18 oed) yn cael bod ar y safle ar ôl 21.00 o'r gloch.*

Cyfleodd y Cadeirydd benderfyniad yr Is-bwyllgor i bob parti yn y cyfarfod a rhoddodd y Cyfreithiwr y rhesymau dros y penderfyniad fel a ganlyn -

Ystyriodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu yr holl gyflwyniadau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd a phartïon perthnasol. Ystyriodd yr Aelodau fod gosod amodau, fel y nodwyd uchod, yn angenrheidiol er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu - yn benodol Atal Trosedd ac Anrhefn, Amddiffyn Plant rhag Niwed a Diogelwch y Cyhoedd.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50 a.m.